Cathod a'u Hystadegau Cymru 2025

# Crynodeb gweithredol

## Cyflwr y sector

- Mae 480,000 o berchnogion cathod yng Nghymru; yr un fath â'r llynedd
- Mae oedran perchnogion cathod yng Nghymru wedi aros yn weddol debyg i'r llynedd; mae perchnogion cathod Cymru yn tueddu i fod yn iau na phoblogaeth gyffredinol Cymru
- Mae perchnogion cathod yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn fenywod na dynion

## Y farchnad gathod

- Mae cathod pedigri bellach yn cynrychioli 32% o gyfanswm poblogaeth cathod Cymru; cynnydd ers y llynedd
- Er bod prynu cathod wedi dod yn fwy poblogaidd yng Nghymru, mae cyfran y cathod a gafodd 'eu prynu' yng nghyfanswm poblogaeth cathod Cymru yn dal yn is na'r DU gyfan
- Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r bwlch rhwng y nifer o gathod a gafodd eu prynu neu eu mabwysiadu yng Nghymru yn ehangach , o'i gymharu â phoblogaeth gyfan cathod Cymru

## Gofal milfeddygol

- Mae cyfraddau niwtro wedi gostwng yng Nghymru i 81%
- Mae perchnogion o Gymru yn llai tebygol o fynd â'u cath at y milfeddyg fel mater o drefn bob blwyddyn o'i gymharu â'r DU gyfan (55% o'i gymharu â 64%)
- Mae perchnogion cathod yng Nghymru yn dal i ddweud mai cost yw'r prif reswm dros beidio ag ymweld â'r milfeddyg gymaint ag yr hoffent

## Gofal, lles ac ymddygiad cathod

- Mae perchnogion cathod Cymru yn ymchwilio mwy i anghenion eu cathod, ac yn dal i droi'n bennaf at eu milfeddyg am gyngor
- Mae cyfryngau cymdeithasol a chynnwys fideo yn dod yn fwyfwy dylanwadol ar wybodaeth perchnogion cathod Cymru, yn enwedig perchnogion iau
- Mae ofnau ynghylch cathod yn cael eu brifo neu eu colli yn golygu bod llawer o berchnogion yng Nghymru yn dewis cadw eu cathod dan do

## Cwmnïaeth

- Mae Cwmnïaeth yn dal i fod yn un o'r prif resymau pam mae pobl Cymru yn dewis bod yn berchen ar gath
- Mae cyfran y perchnogion yng Nghmru sy'n berchen ar gathod oherwydd eu bod 'bob amser wedi cael cathod' yn sylweddol uwch na chyfran y DU gyfan (39% o'i gymharu â 30%)
- O'i gymharu â'r DU gyfan, mae perchnogion yng Nghymru yn cytuno'n mwy cyson â'r datganiadau bod cathod yn fuddiol i les unigolion

**I ddarllen *Adroddiad CATS DU* ewch i [cats.org.uk/cats-report](cats.org.uk/cats-report)**

CATS PROTECTION

Mae Cats Protection yn elusen gofrestredig 203644 (Cymru a Lloegr), SC037711 (Yr Alban)
ac wedi'i restru fel sefydliad Adran 167 gan Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon. | ED_25_256